**TAI WALES & WEST**

**DATGANIAD ATAL CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL**

Cyhoeddwyd y datganiad hwn yn unol ag a54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gan Dai Wales & West (TWW) er mwyn atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023.

## Cyflwyniad

Mae caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn faterion sy'n bodoli mewn economïau datblygedig a datblygol ac ar draws sectorau busnes. Mae gan TWW agwedd dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl (caethwasiaeth fodern). Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern a gwaredu'r arfer o'r gadwyn gyflenwi.

## Strwythur a chadwyni cyflenwi

Mae TWW yn ddarparwr tai nid-er-elw ar gyfer dros 20,000 o bobl ac mae ganddo dros 450 o gyflogeion. Fel Cwmni Cydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol cofrestredig, rydym yn berchen ar ac yn rheoli dros 12,400 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel mewn 14 o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dros 3,000 eiddo penodedig ar gyfer pobl hŷn a datrysiadau tai â chymorth arloesol ar gyfer pobl sydd ag amrediad o anghenion penodol. Ein gweledigaeth yw sicrhau twf cadarn a chynaliadwy er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl. Roedd y trosiant yn ystod 2023 dros £73m.

Mae TWW yn gweithredu yng Nghymru yn unig, a phan fo modd, mae'n caffael o fewn Cymru. Mae'n bwysig i ni ein bod yn ystyried cynhyrchu lleol a moesegol trwy'r ffordd yr ydym yn "prynu'n iawn". Mae ein prif gontractwyr datblygu a'n cyflenwyr a'n contractwyr gwasanaethau eiddo yn gweithio gyda ni i gynnig gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol er mwyn cynorthwyo ein fframwaith Gwneud Gwahaniaeth parhaus.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i dalu Cyflog Byw Sefydliad Joseph Rowntree. Rydym yn adolygu ein holl amodau cyflogaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Gofynnir i'n prif gontractwyr ddangos eu cynnydd tuag at fod yn gyflogwr sy'n talu'r cyflog byw yn ystod y broses gaffael ac yn ystod adolygiadau contract.

Mae TWW yn darparu hyfforddiant e-ddysgu sy'n seiliedig ar rolau er mwyn sicrhau bod staff perthnasol yn deall risgiau posibl caethwasiaeth fodern wrth ddarparu ein gwasanaethau a rheoli ein cadwyn gyflenwi. Mae canllawiau ar gael gan y Llywodraeth sy'n nodi a chynorthwyo dioddefwyr ac sy'n hygyrch i'r holl gyflogeion trwy gyfrwng y fewnrwyd.

Yn 2019, ymrwymodd TWW i God Ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi (COP) Llywodraeth Cymru. Wrth ymrwymo i'r COP, mae hyn wedi cynnig mynediad i fodiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo ac sy'n addysgu staff perthnasol i gydnabod a delio â materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a hawliau dynol. Yn ogystal, mae TWW wedi datblygu offeryn Cod Ymarfer e-ddysgu mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gallu troi at y wybodaeth berthnasol. Gan gydymffurfio â'r COP, mae gwefan TWW yn cynnwys mecanwaith chwythu'r chwiban er mwyn adrodd am bryderon gan bartïon allanol.

Mae ein datganiad atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithredu mewn ffordd foesegol a gydag uniondeb yn ein holl berthnasoedd busnes, a gweithredu a gorfodi systemau a threfniadau rheoli sy'n ceisio sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd unrhyw le yn ein cadwyni cyflenwi. Nid yw ac ni fydd TWW yn cefnogi nac yn delio ag unrhyw fusnes y mae'n hysbys eu bod yn ymwneud â chaethwasiaeth neu fasnachu pobl mewn unrhyw ran o'u gweithrediadau. Dim ond gyda'r rhai sy'n cydymffurfio'n llawn â'r datganiad hwn neu'r rhai sy'n gallu dangos camau tuag at gydymffurfiaeth y byddwn yn masnachu â nhw.

## Asesiad risg a diwydrwydd dyladwy

Er mwyn nodi a lleihau risg, mae TWW yn parhau i werthuso ac adolygu cymhwyster ein cyflenwyr. Nod y broses hon yw gweithio gyda chontractwyr a chyflenwyr i ganfod gwybodaeth berthnasol ynghylch y ffordd y caiff eu busnesau eu rhedeg mewn ffordd foesegol. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i sicrhau bod staff TWW yn cael canllawiau a dogfennaeth ategol er mwyn cynorthwyo'r broses fewnol. Caiff cwestiynau sy'n targedu risg caethwasiaeth a masnachu pobl, diogelu rhag llafur plant ac arferion cyflogaeth moesegol eu hystyried fel rhan o'n proses gaffael. Nid yn unig y bydd hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddf a COP, ond bydd yn pwysleisio'r pwys y mae TWW yn ei roi ar allu dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth hefyd.

## Polisïau ynghylch caethwasiaeth fodern

Nid yw'r Bwrdd, y Cyfarwyddwyr Gweithredol na'r rheolwyr uwch wedi cael eu hysbysu o unrhyw faterion caethwasiaeth fodern o fewn cadwyni cyflenwi neu fusnesau y Gymdeithas, ac maent o'r farn y dylai'r polisïau canlynol, y cynlluniwyd pob un ohonynt i gynorthwyo cydymffurfiaeth gyfreithiol ac arfer gorau, fod yn ddigonol er mwyn atal neu alluogi materion y gallent fod yn destun pryder i gael eu nodi yn gynnar:

- Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol
- Côd Ymddygiad Cyflogeion
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi a Gweithdrefn Atal Twyll
- Rheoliadau Ariannol
- Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed
- Polisi Cyflogaeth Foesegol

Gwneir y datganiad hwn dan Adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n cyfateb â datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Mae trosiant y Gymdeithas dros £36m ar gyfer y cyfnod hwnnw. Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Fwrdd Tai Wales & West, a fydd yn ei adolygu ac yn ei ddiweddaru bob blwyddyn.

Llofnodwyd

**Alex Ashton**
**Cadeirydd**
**Tai Wales & West**

Llofnodwyd

**Anne Hinchey**
**Prif Weithredwr y Grŵp**
**Tai Wales & West**

Dyddiad: 16 April 2024